

Trwyddedu Cerbydau Hacni (Tacsi) a Cherbydau Hurio Preifat (PHV)

Polisi Canllawiau ar Berthnasedd Euogfarnau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas y polisi yma yw darparu arweiniad ar y meini prawf sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth gan Gyngor Rhondda Cynon Taf wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded bresennol yn **'berson cymwys a phriodol'** i fod yn ddeiliad trwydded cerbyd hacni a/neu drwydded gyrrwr neu weithredwr hurio preifat.
- 1.2 Bydd y term 'person cymwys a phriodol', o fewn y polisi yma, hefyd yn adlewyrchu'r term 'diogel ac addas', fel sy'n cael ei ddisgrifio yn y canllaw sydd wedi'i gyhoeddi gan y Sefydliad Trwyddedu (IOL).
- 1.3 Mae'r polisi yma'n seiliedig ar Ganllaw'r Sefydliad Trwyddedu ynglŷn â phennu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedeion hacni a hurio preifat a gafodd ei gyhoeddi fis Ebrill 2018.
- 1.4 Prif nod yr Awdurdod Trwyddedu yw sicrhau diogelwch y cyhoedd.
Mae'r awdurdod trwyddedu yn awyddus i wneud yn siŵr:
 - bod deiliad y drwydded yn berson cymwys a phriodol
 - nad yw'r drwydded yn fygythiad i'r cyhoedd
 - bod y cyhoedd yn cael ei ddiogelu rhag pobl anonest
 - bod plant a phobl ifainc yn cael eu diogelu
- 1.5 Mae'r polisi yma'n darparu arweiniad ar gyfer unrhyw berson sydd â buddiant mewn trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Yn bennaf y canlynol (ond dydy'r rhestr yma ddim yn un gynhwysfawr):
 - Ymgeiswyr trwyddedau gyrru
 - Gyrrwyr sydd eisoes â thrwydded y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu
 - Swyddogion Trwyddedu
 - Aelodau'r pwyllgor / panel trwyddedu (neu gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau)
 - Ynadon sy'n llywyddu mewn gwrandawladau apêl yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod lleol.
- 1.6 Pan fydd gan swyddogion trwyddedu bwerau dirprwyedig i roi trwyddedau, byddan nhw'n defnyddio'r canllawiau yma wrth wneud penderfyniad i roi trwydded. Ym mhob achos arall, bydd ceisiadau am drwyddedau yn cael eu hatgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu. Er y bydd Swyddogion a'r Pwyllgor yn rhoi sylw i'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y polisi, **bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinwedd unigol ei hun a, lle mae'r amgylchiadau'n mynnu, caiff y Pwyllgor/Swyddog wro oddi wrth y canllawiau.**

2. Polisi Cyffredinol

- 2.1 Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn gofyn bod yr awdurdod yn fodlon bod y person yn berson cymwys a phriodol i fod â thrwydded, a dyna brawf i'w gymhwyso ar ôl i unrhyw ymgeisydd ennill cymwysterau y mae gofyn rhesymol amdany'n nhw. Yn ystod rhan derfynol y broses ymgeisio y mae'r penderfyniad yn cael ei wneud, boed hynny gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o dan Gynllun Dirprwyo. Mae'n cynnwys archwiliad manwl o'i gymeriad cyfan er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn ag a yw'n berson cymwys a phriodol.
- 2.3 Nid y safon leiaf pwysig mo'r safon 'cymwys a phriodol' yn y polisi yma. Mae cyhoedd Rhondda Cynon Taf yn haeddu'r sicrwydd mae'n gofyn amdano wrth ddefnyddio gwasanaeth tacsî. Mae'n dda gwybod nad yw'ch gyrrwr yn droseddwr. Mae'n well gwybod ei fod ef / ei bod hi yn weithiwr proffesiynol ymroddedig.
- 2.4 Os nad yw deiliad trwydded yn cyrraedd safon cymwys a phriodol ar unrhyw adeg, dylai'r drwydded gael ei dirymu a chais ei wrthod.
- 2.5 Dylai ymgeiswyr sydd â thrwydded gydag un awdurdod trwyddedu beidio â'i chymryd hi'n ganiataol y bydd ei gais yn cael ei gymeradwyo gan awdurdod arall. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol.
- 2.6 Ar hyn o bryd does dim canllawiau Statudol na Gweinidogaethol diweddar ynghylch gwneud penderfyniadau na pha faterion sy'n berthnasol i wneud penderfyniadau. Am hynny, cyfrifoldeb Awdurdod Trwyddedu RhCT yw rhoi ei gymeradwyaeth neu beidio.
- 2.7 Bwriad y ddogfen yma yw darparu arweiniad ar sut y byddwn ni'n gwneud penderfyniad ynghylch a yw person yn addas, gan gymryd i ystyriaeth gymeriad yr ymgeisydd neu'r trwyddedai. Yn benodol mae'n ystyried sut y dylid rhoi sylw i hanes blaenorol yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded a'i berthnasedd o ran a yw'n berson 'cymwys a phriodol' neu i'w gymeriad. Yn yr un modd ag unrhyw ganllaw, does dim angen ei ddilyn yn slafaid ond mae'n rhoi man cychwyn neu gyfeirbwynt y bydd modd gwneud penderfyniadau ohono gan ystyried rhinweddau penodol pob achos.
- 2.8 Yn y polisi yma, bydd yr awdurdod yn gwneud penderfyniadau terfynol, er enghraifft, 'byth' neu 'rhaid' ac ati. Serch hynny, dim ond canllaw yw'r polisi ac nid deddfwriaeth, felly gall yr awdurdod wyro oddi wrth hyn os yw'n briodol yn ei farn ef. Mewn rhai materion, bydd yr awdurdod yn gwneud penderfyniad sy'n mynd yn erbyn 'byth' ac yn rhoi caniatâd os yw'r sefyllfa'n gofyn amdano. Bydd pob achos yn cael ei ystyried bob amser ar ei rinweddau o ystyried y polisi, a gall yr awdurdod trwyddedu wyro o'r polisi lle mae'n ystyried ei bod hi'n briodol gwneud hynny. Bydd hyn fel arfer yn digwydd lle mae'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu penderfyniad gwahanol. Cafodd y dull yma gan yr Uchel Lys yn *R (ar gais Nicholds) v Security Industry Authority*².

- 2.9 Efallai y bydd adegau pan fydd hi'n briodol gwyro oddi wrth y canllawiau, er enghraifft pan fo'r drosedd yn achlysur unwaith yn unig neu lle mae amgylchiadau sy'n cyfiawnhau neu, fel arall, lle mae llawer o droseddau neu droseddau parhaus a all ddangos patrwm o droseddu a pheidio â bod yn briodol.
- 2.10 Fydd cymeriad da a hanes gyrru da testun y penderfyniad ddim yn cael eu hystyried yn amgylchiadau eithriadol.
- 2.11 Yn gyffredinol, fydd y ffaith nad yw'r person yn troseddu ddim yn dystiolaeth ddigonol ei fod e'n gymwys a phriodol.
- 2.12 Pan fydd ymgeisydd wedi ei gael yn euog o drosedd, all yr Awdurdod Trwyddedu ddim adolygu rhinweddau'r euogfarn [Cyngor Dinas Nottingham v. Mohammed Farooq (1998)].

3. Canllawiau ar Benderfynu

- 3.1 Dydy'r polisi yma ddim yn cynnwys rhestrau manwl o droseddau. Mae pob trosedd yn cael ei dyrannu i gategori cyffredinol megis 'anonestrwydd' neu 'gyffuriau'. Mae hyn yn atal anghytundebau ynglŷn ag a yw trosedd benodol wedi'i chynnwys yn y polisi neu a yw'r drosedd 'ar y rhestr'. Mae hefyd yn atal anghytundebau ynglŷn ag a yw un math o drosedd yn fwy difrifol na'r llall. Ymhob achos, dylid rhoi pwys priodol ar y dystiolaeth sy'n cael ei darparu.
- 3.2 Efallai na fydd person sydd wedi troseddu unwaith yn cael ei atal rhag cael trwydded neu adnewyddu ei drwydded, yn arbennig os cafodd y drosedd ei chyflawni beth amser yn ôl.
- 3.3 Mae'n bwysig cydnabod bod gofyniad parhaus i'r trwyddedai barhau i fod yn berson cymwys a phriodol unwaith y bydd trwydded yn cael ei rhoi. Mae gan yr awdurdod trwyddedu bwerau i gymryd camau yn erbyn deiliaid pob math o drwydded (gyrrwr, cerbyd a gweithredwr) a rhaid deall y gall euogfarnau neu gamau eraill ar ran y trwyddedai (a fyddai wedi'i atal rhag cael trwydded ar ôl cyflwyno cais am y tro cyntaf) arwain at ddirymu'r drwydded honno.
- 3.4 Bydd anonestrwydd yn ystod y broses cyflwyno cais gan yr ymgeisydd neu berson sy'n cyflwyno cais ar ran ymgeisydd (er enghraifft, methu â datgan euogfarnau, rhoi enwau neu gyfeiriadau ffug, rhoi geirdaon ffug) yn arwain at wrthod trwydded, neu os yw wedi'i rhoi eisoes, ei dirymu a fydd efallai'n arwain at erlyniad.
- 3.5 Gan fod yr effaith uniongyrchol ar y cyhoedd yn amrywio gan ddibynnu ar y math o drwydded y gwnaed cais amdani neu'r math o drwydded sy'n cael ei dal, mae angen ystyried effaith troseddau penodol ar y trwyddedau hynny ar wahân. Serch hynny, mae ystyriaethau a fydd yn goruwchreoli ym mhob amgylchiad.

- 3.6 Yn gyffredinol, lle mae gan berson fwy nag un euogfarn, bydd hyn yn codi cwestiynau difrifol am ei ddiogelwch a'i addasrwydd. Mae'r awdurdod trwyddedu am benodi unigolion diogel ac addas, ac unwaith bod patrwm neu duedd o droseddu dro ar ôl tro yn dod i'r amlwg, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi a bydd rhagdybiaeth na chaiff ei adnewyddu.
- 3.7 Pan fydd ymgeisydd/trwyddedai'n cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd nad yw wedi'i nodi yn y polisi yma, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried yr euogfarn honno a defnyddio'r polisi yma'n arwydd o'r dull y dylid ei ddefnyddio.
- 3.8 Dydy'r polisi yma ddim yn disodli dyletswydd yr awdurdod trwyddedu i wrthod rhoi trwydded lle nad ydyn nhw'n fodlon bod yr ymgeisydd neu'r trwyddedai yn berson cymwys a phriodol. Lle nad yw'r polisi yma'n ymdrin â sefyllfa, bydd yr awdurdod yn ystyried y mater o'r egwyddorion cyntaf ac yn penderfynu a yw'r unigolyn yn gymwys a phriodol.
- 3.9 Os oes gan ymgeisydd unrhyw euogfarnau, rhybuddion neu gyhuddiadau sy'n aros am dreial, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymchwilio i'r canlynol:
- Pa mor berthnasol yw'r drosedd/troseddau i'r drwydded y gwnaed cais amdani
 - Pa mor ddifrifol oedd y drosedd/troseddau
 - Pryd y cafodd y troseddau eu cyflawni
 - Dyddiad yr euogfarn
 - Amgylchiadau'r unigolyn dan sylw
 - Y ddedfryd sy'n cael ei gosod gan y llys
 - Oedran yr ymgeisydd ar adeg yr euogfarn
 - A yw'r rhain yn ffurfio rhan o batrwm o droseddu
 - Unrhyw wiriad arall ynghylch cymeriad unigolyn sy'n cael ei ystyried yn rhesymol (er enghraifft, geirdaon personol)
 - Unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol.
- 3.10 Mae'r meini prawf canlynol i'w dilyn gan Awdurdod Trwyddedu RhCT wrth ystyried 1) Gyrwyr, 2) Gweithredwyr Hurio Preifat a 3) Perchnogion Cerbydau:-

Gyrwyr

- 3.11 Mae gan yrrwr gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch ei deithwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill, a rheolaeth arwyddocaol dros y teithwyr sydd yn y cerbyd. Gan y gall y teithwyr hynny fod ar eu pennau eu hunain, a gallan nhw hefyd fod yn agored i niwed, bydd unrhyw euogfarnau blaenorol neu ymddygiad annerbyniol yn rhesymau da iawn dros beidio â rhoi neu adnewyddu trwydded.
- 3.12 Fel sydd wedi'i nodi uchod, lle mae gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn sy'n dangos patrwm neu duedd, waeth beth fo'r amser ers yr euogfarnau, bydd ystyriaeth ddifrifol yn cael ei rhoi ynghylch a yw'n berson cymwys a phriodol.

- 3.13 Mewn perthynas ag euogfarnau unigol, dylai'r cyfnodau amser canlynol fynd heibio ar ôl cwblhau'r ddedfryd (neu ddyddiad yr euogfarn os cafodd dirwy ei gosod) cyn y bydd trwydded yn cael ei rhoi.

Troseddau sy'n arwain at farwolaeth

- 3.14 Lle mae ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd a arweiniodd at farwolaeth rhywun arall neu lle'r bwriad oedd achosi marwolaeth neu anaf difrifol i berson arall, **fydd y person hwnnw ddim yn cael trwydded.**

Camfanteisio

- 3.15 Os yw ymgeisydd wedi ei gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud â (neu sy'n gysylltiedig â) cham-drin, cam-fanteisio neu ddefnyddio unigolyn arall (boed hwnnw'n blentyn neu'n oedolyn), fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi i'r ymgeisydd hwnnw. Mae hyn yn cynnwys caethwasiaeth, camfanteisio rhywiol ar blant, meithrin perthynas amhriodol a cham-drin seicolegol, emosiynol neu ariannol. (Dydy'r rhestr yma ddim yn un gynhwysfawr.)

Troseddau sy'n ymwneud â thrais

- 3.16 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am drais, neu euogfarn sy'n gysylltiedig â thrais, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 10 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a gafodd ei gosod.

Meddu ar arf

- 3.17 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am feddu ar arf neu am unrhyw drosedd arall sy'n ymwneud ag arf, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 7 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a gafodd ei gosod.

Troseddau rhyw ac anwedduster

- 3.18 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd sy'n ymwneud neu'n gysylltiedig â gweithgaredd rhywiol anghyfreithlon neu unrhyw fath o anwedduster, **fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi.**
- 3.19 Yn ychwanegol at yr uchod, fydd yr awdurdod trwyddedu **ddim yn rhoi trwydded** i unrhyw ymgeisydd sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw ar hyn o bryd neu ar unrhyw restr o bersonau sydd wedi'u gwahardd.

Anonestrwydd

- 3.20 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd o anonestrwydd, neu unrhyw drosedd lle mae anonestrwydd yn elfen o'r drosedd, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 7 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a gafodd ei gosod.

Cyffuriau

- 3.21 Pan fydd gan ymgeisydd unrhyw euogfarn am gyflenwi cyffuriau neu sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau, neu feddu ar gyffuriau gyda'r bwriad o'u cyflenwi neu'n gysylltiedig â meddu ar gyffuriau gyda'r bwriad o'u cyflenwi, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 10 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd sydd wedi'i gosod.

- 3.22 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am feddu ar gyffuriau neu am unrhyw drosedd arall sy'n ymwneud â meddu ar gyffuriau, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 5 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a gafodd ei gosod. O dan yr amgylchiadau yma, bydd rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael profion cyffuriau a thalu am y rhain ei hunan i ddangos nad yw'n defnyddio cyffuriau sydd wedi'u rheoli.

Gwahaniaethu

- 3.23 Lle mae gan ymgeisydd euogfarn sy'n ymwneud â gwahaniaethu neu'n gysylltiedig â hynny ar unrhyw ffurf, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 7 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd sydd wedi'i gosod neu ar ôl unrhyw euogfarn (p'un bynnag sydd hwyaf).

Euogfarnau moduro

- 3.24 Mae gyrrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn yrwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gludo'r cyhoedd. Mae unrhyw euogfarn moduro yn dangos diffyg proffesiynoldeb a bydd yn cael ei ystyried o ddifrif. Mae'n cael ei dderbyn y gall troseddau gael eu cyflawni'n anfwriadol, a fyddai achos unigol o drosedd moduro weddol ddibwys ddim yn golygu na fyddai trwydded yn cael ei rhoi nac yn arwain at gymryd camau yn erbyn trwydded gyfredol. Mae euogfarnau dilynol yn atgyfnerthu'r ffaith nad yw'r trwyddedai yn cymryd ei gyfrifoldebau proffesiynol o ddifrif ac felly, fyddai ddim yn cael ei ystyried yn berson diogel a chymwys i gael neu gadw trwydded.
- 3.25 Lle mae ymgeisydd wedi bod yn gysylltiedig â throseddau moduro a oedd yn cynnwys colli bywyd, fydd e **ddim yn cael trwydded**.
- 3.26 Chaiff gyrrwr sydd â 12 pwynt cyfredol, neu fwy na hynny, ar ei drwydded DVLA ddim bod yn ddeiliad trwydded.
- 3.27 Mewn achosion lle mae'r llysoedd wedi gosod gwaharddiad mewn perthynas â thrwydded yrru DVLA, fydd cais am drwydded yrru ddim yn cael ei gymeradwyo **tan ar ôl 7 mlynedd** yn dilyn adfer y drwydded honno. Lle mae person wedi cael mwy nag un cyfnod o gael ei wahardd, yna, bydd y cais yn cael ei wrthod.

Yfed a gyrru / gyrru dan ddylanwad cyffuriau / defnyddio ffôn neu ddyfais (drwy afael ynddo/ynddi) wrth yrru

- 3.28 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am yfed a gyrru neu yrru dan ddylanwad cyffuriau, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan o leiaf 7 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad rhag gyrru. O dan yr amgylchiadau yma, bydd rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael profion cyffuriau a thalu am y rhain ei hunan i ddangos nad yw'n defnyddio cyffuriau sydd wedi'u rheoli.
- 3.29 Lle mae gan ymgeisydd euogfarn am ddefnyddio ffôn symudol neu ddyfais arall (drwy afael ynddo/ynddi), fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl yr euogfarn neu gwblhau'r ddedfryd neu'r gwaharddiad gyrru, p'un bynnag yw'r hwyraf.

Troseddau moduro eraill

- 3.30 Mae trosedd moduro neu drosedd sy'n ymwneud â cherbydau weddol ddibwys yn un sydd ddim yn ymwneud â cholli bywyd, gyrru o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, gyrru a defnyddio ffôn symudol, ac sydd ddim wedi arwain at anaf i unrhyw berson neu ddifrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Pan fydd gan ymgeisydd 7 pwynt neu ragor ar ei drwydded am droseddau moduro neu droseddau tebyg, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd sydd wedi'i gosod neu'r dyddiad pan fydd nifer y pwyntiau ar y drwydded DVLA yn disgyn yn is na 7.
- 3.31 Mae trosedd raddfa fawr sy'n ymwneud â moduro neu gerbyd yn un sydd ddim wedi'i chynnwys uchod, a hefyd, unrhyw drosedd a arweiniodd at anaf i unrhyw berson neu ddifrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Mae hefyd yn cynnwys gyrru heb yswiriant neu unrhyw drosedd sy'n gysylltiedig ag yswiriant ceir. Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am drosedd moduro raddfa fawr neu drosedd debyg, fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 7 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw drosedd sydd wedi'i gosod.

Troseddau cerbydau hacni a hurio preifat

- 3.32 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â (neu sydd wedi'i gysylltu â) gweithrediadau cerbydau hacni neu hurio preifat (ac eithrio'r defnydd o gerbydau), fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 7 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a gafodd ei gosod.

Troseddau sy'n ymwneud â defnyddio cerbydau

- 3.32 Pan fydd gan ymgeisydd euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â defnyddio cerbyd (gan gynnwys cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat), fydd trwydded ddim yn cael ei rhoi tan **o leiaf 7 mlynedd** ar ôl cwblhau unrhyw ddedfryd a gafodd ei gosod.

Gweithredwyr Hurio Preifat

- 3.34 Does dim cyfrifoldeb uniongyrchol gan weithredwr hurio preifat ("gweithredwr") am ddiogelwch teithwyr na defnyddwyr ffyrdd eraill, nac ychwaith gyswllt uniongyrchol â theithwyr sydd yn y cerbyd hurio preifat (ac eithrio lle maen nhw hefyd wedi'u trwyddedu fel gyrrwyr hurio preifat). Serch hynny, wrth gyflawni eu dyletswyddau, maen nhw'n cael ac yn dal cryn dipyn o wybodaeth bersonol a phreifat am eu teithwyr y mae'n rhaid ei thrin yn gyfrinachol ac na ddylai gael ei datgelu i bobl eraill neu'i defnyddio gan y gweithredwr na'i staff at ddibenion troseddol neu ddibenion annerbyniol eraill.
- 3.35 Fel sydd wedi'i nodi uchod, lle mae gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd ystyriaeth ddifrifol yn cael ei rhoi ynglŷn ag a yw'n berson diogel ac addas.
- 3.36 Rhaid i weithredwyr sicrhau bod unrhyw staff sy'n cael ei ddefnyddio yn y busnes (boed y staff yma'n weithwyr neu'n gontractwyr annibynnol), sydd â'r modd i weld unrhyw wybodaeth fel sydd wedi'i disgrifio uchod, yn ddarostyngedig i'r un safonau â'r gweithredwyr eu hunain. Mae modd sicrhau

hyn drwy'i gwneud hi'n ofynnol bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ymchwilio i gefndir yr aelod unigol o staff ac iddo feddu ar dystysgrif sylfaenol yn sgil yr ymchwiliad, ac i wneud datganiad statudol. Os yw'n dod i'r amlwg nad yw'r gweithredwr yn cymhwyso'r safonau gofynnol ac yn defnyddio staff sydd ddim yn bodloni meini prawf cyffredinol yr awdurdod trwyddedu, bydd trwydded y gweithredwr yn cael ei dirymu.

- 3.37 Gan fod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn niogelwch a chywirdeb cyffredinol y system hurio preifat yn hanfodol, bydd yr un safonau (sydd wedi'u hamlinellu uchod) yn cael eu cymhwyso i yrwyr a gweithredwyr fel ei gilydd.

Perchnogion cerbydau

- 3.38 Mae gan berchnogion cerbydau (cerbydau hacni a hurio preifat) ddau brif gyfrifoldeb.

Yn gyntaf, rhaid iddyn nhw sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dderbyniol bob amser.

Yn ail, rhaid iddyn nhw sicrhau nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion anghyfreithlon.

- 3.39 Gan fod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn niogelwch a chywirdeb cyffredinol y system hurio preifat yn hanfodol, bydd yr un safonau (sydd wedi'u hamlinellu uchod) yn cael eu cymhwyso i yrwyr a gweithredwyr fel ei gilydd.

Deiliaid trwydded presennol

- 3.41 Gan fod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn niogelwch a chywirdeb cyffredinol y system trwyddedu cerbydau hacni yn hanfodol, lle mae deiliad trwydded wedi cael euogfarn am unrhyw gategori o'r troseddau sydd wedi'u rhestru uchod, **bydd ei drwydded/drwyddedi yn cael ei/eu dirymu.**

4. Pwerau

- 4.1 Mae Adran 61 ac Adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded os yw deiliad y cais/drwydded wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd, anweddu, trais; methu â chydymffurfio â darpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methu â chydymffurfio â darpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu unrhyw achos rhesymol arall.

- 4.2 Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002, yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr holl euogfarnau sydd wedi'u cofnodi yn erbyn cais neu ddeiliad trwydded yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni p'un a yw'r euogfarnau wedi dod i ben ai peidio. Felly bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi sylw i'r holl euogfarnau perthnasol, yn enwedig lle mae hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o ailgyflawni troseddau.

5. Trigolion tramor

- 5.1 Os yw unigolyn sydd wedi gwneud cais i weithredu cerbydau hurio preifat wedi treulio 6 mis neu fwy na hynny, yn barhaus, mewn gwlad dramor, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl gweld tystysgrif ymchwilio i gofnodion troseddol ar y lefel briodol, neu Dystysgrif Ymddygiad Da gan y wlad berthnasol / y gwledydd perthnasol.

6. Gwybodaeth sydd ddim yn ymwneud ag euogfarn

- 6.1 Os oes gwybodaeth ychwanegol ar gael ynglŷn â hanes blaenorol ymgeisydd sy'n achosi amheuaeth o ran a yw'n berson cymwys a phriodol i fod yn ddeiliad y drwydded y mae wedi ymgeisio amdani, neu mae'r ymgeisydd, ar fwy nag un achlysur, wedi cael ei arestio neu'i gyhuddo (heb euogfarn), am drosedd sy'n awgrymu y gall fod yn berygl i'r cyhoedd, dylai ystyriaeth gael ei rhoi i wrthod y cais.
- 6.2 Wrth asesu'r camau i'w cymryd, rhaid cofio mai diogelwch unigolion sy'n teithio yw'r ystyriaeth bwysicaf.

7. Cyhuddiadau neu wysion heb eu datrys

- 7.1 Os yw'r unigolyn yn destun cyhuddiad neu wŷs heb ei ddatrys/datrys, bydd modd parhau i brosesu ei gais, ond bydd angen ailystyried y cais ar ôl i'r camau cyfreithiol ddod i'w terfyn. Pan fydd gwybodaeth yn cael ei derbyn drwy'r Cynllun Galwedigaethau Hysbysadwy ar ddeiliaid trwydded presennol, bydd y Pwyllgor yn trafod hyn.
- 7.2 Fydd dim angen i'r awdurdod trwyddedu aros am ganlyniad unrhyw gyhuddiad neu wŷs heb ei ddatrys/datrys cyn cymryd camau mewn perthynas â thrwydded neu gais pan fydd ystyried yr wybodaeth ar unwaith er budd diogelwch y cyhoedd.
- 7.3 Daw atal neu ddirymu trwydded gyrrwr i rym ar ddiwedd y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei roi i'r gyrrwr. Os yw'n ymddangos bod angen atal neu ddirymu'r drwydded ar unwaith er budd diogelwch y cyhoedd, ac mae'r rhybudd sy'n cael ei roi i'r gyrrwr yn rhoi datganiad i'r perwyl hwnnw ac yn rhoi'r rheswm am hyn, mae'r ataliad neu'r dirymiad yn dod i rym ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi i'r gyrrwr. [Deddf Diogelwch ar y Ffyrdd 2006, a 52, 2A a 2B]

8. Rhybuddion

- 8.1 Mae angen cyfaddefiad o euogrwydd cyn y bydd modd rhoi rhybudd. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun gan gynnwys manylion a natur y drosedd.

9. Apeliadau

- 9.1 Os yw cais ymgeisydd am drwydded yrru yn cael ei wrthod oherwydd nad yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon ei fod yn berson cymwys a phriodol i fod yn ddeiliad y drwydded honno, bydd ganddo'r hawl i apelio i Lys yr Ynadon cyn pen 21 diwrnod o'r hysbysiad gwrthod [Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, A 77 (1)].

10. Cofrestr Dirymiadau a Gwrthodiadau

- 10.1 Mae gan yr awdurdod trwyddedu fynediad i gronfa ddata genedlaethol sy'n cynnwys manylion unigolion sydd wedi methu â chael trwydded ar ôl cyflwyno cais neu mae eu trwyddedi wedi cael eu dirymu. Bydd yr awdurdod lleol yn gwirio'r gronfa ddata yma bob tro mae person yn cyflwyno cais am drwydded gyrrwr/gweithredwr. Os yw'r ymgeisydd wedi'i gynnwys ar y gronfa ddata, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol a wnaeth y penderfyniad i wrthod neu ddirymu trwydded er mwyn cael gwybodaeth berthnasol. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei chynnwys wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded i weithredu yn RhCT. Pe bai gwybodaeth yn dod i'r amlwg am yrrwr trwyddedig presennol y mae trwydded wedi'i gwrthod iddo neu mae ei drwydded wedi cael ei dirymu, mewn ardal arall, yna bydd yr un gweithdrefnau'n berthnasol.